**Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Casgliad**

**Swyddog:** PC 3699 Robert Masson
**Cyfeirnod Achos:** CM/9/26
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 12 Mehefin 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

**Cefndir**

Mae hwn yn Wrandawiad Camymddwyn Cyflym ynghylch PC Robert Masson. Rwyf wedi ystyried y bwndel o dystiolaeth llawn, y deunydd ysgrifenedig, y cyflwyniadau llafar a wnaed ar ran yr Awdurdod Priodol a'r Swyddog, a'r cyfaddefiadau gan PC Masson.

Mae'r mater yn deillio o archwilio gweithgarwch cyfrifiadurol y Swyddog a nododd achosion mynych o "key-jamming" (lle mae bysellau'n cael eu pwyso'n fwriadol i sicrhau bod cyfrifiadur yn ymddangos yn weithredol) rhwng 19 Tachwedd 2023 a 14 Medi 2025. Mae'r dystiolaeth yn dangos sampl ar hap ac nid yw'n hir. Mae'r gweithgarwch a nodir yn dangos patrwm o ymddygiad mynych ar draws nifer o ddyddiadau. Mewn rhai achosion, roedd yn parhau am nifer o oriau ac, ar brydiau, y mwyafrif o ddiwrnod gwaith.

Mae PC Masson yn derbyn ei fod wedi gwneud hyn yn ystod y cyfnod hwn. Y mater i'w benderfynu ydy natur yr ymddygiad hwnnw, a yw'n cyfateb i dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, a difrifoldeb y toriadau hynny.

**Honiad**

Honnir fod PC Masson wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, sef:

- <u>Gonestrwydd ac Uniondeb,</u> sef ei fod wedi gweithredu'n anonest drwy wasgu bysellau er mwyn creu'r argraff ei fod wrthi'n gweithio pan nad oedd
- <u>Dyletswyddau a Chyfrifoldebau,</u> sef ei fod wedi methu gweithredu'n ddiwyd wrth gyflawni ei rôl
- <u>Cyfrinachedd</u>, sef ei fod wedi gadael ei gyfrifiadur ymlaen ac ar brydiau heb oruchwyliaeth, gan greu risg o fynediad anawdurdodedig at systemau'r heddlu
- <u>Ymddygiad Annheilwng</u>, sef fod yr hyn a wnaeth yn gallu tanseilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth yr heddlu.

**Cyngor Cyfreithiol**

Ar y mater hwn, nid wyf wedi gofyn am unrhyw gyngor cyfreithiol penodol.

**Casgliadau**

Yn ôl yr hyn sy'n debygol, rwyf yn dod i'r casgliad y gellir profi'r ymddygiad.
Rwyf yn pwys mawr ar gyfaddefiad PC Masson ei fod wedi pwyso bysellau. Rwyf hefyd yn dibynnu ar dystiolaeth yr archwiliad sy'n dangos fod ei ymddygiad wedi digwydd sawl tro dros gyfnod estynedig, ac yn aml am gyfnodau hirfaith.

Rwyf wedi ystyried eglurhad y Swyddog yn ofalus mai diben yr ymddygiad oedd atal ei gyfrifiadur rhag mynd i gysgu a sicrhau ei fod yn parhau i ymateb i waith oedd yn cyrraedd. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld yr eglurhad hwnnw'n ddigonol wrth edrych ar y dystiolaeth i gyd.

Mae cyfnodau sylweddol a mynych, yn bennaf ar ddyddiadau fel 2 Mehefin 2025, lle nad ydy'r dystiolaeth yn dangos fod y Swyddog yn ceisio neu'n ymgymryd â gwaith yn ystod y cyfnodau lle roedd pwyso'r bysellau'n digwydd. Rwyf hefyd yn nodi fod hwn yn swyddog a oedd yn ymwybodol o'r angen i ofyn am fwy o waith ac a oedd wedi gofyn sawl tro. Mae absenoldeb ceisiadau o'r fath ar adegau perthnasol o bwys.

Rwyf yn fodlon fod pwyso'r bysellau'n fynych ac yn fwriadol wedi creu a chynnal argraff gamarweiniol fod y Swyddog wrthi'n gweithio pan nad oedd. Nid oedd hwn yn gamgymeriad unigol, ond yn batrwm ymddygiad dros gyfnod hir.

Yn unol â hynny, rwyf yn dod i'r casgliad fod PC Masson wedi torri'r safonau fel a ganlyn:

- Gonestrwydd ac Uniondeb: Drwy sicrhau'n fwriadol fod ei system i weld ymlaen, fe wnaeth greu argraff cynhyrchiant ffug. Roedd hyn yn gydnaws â diffyg gonestrwydd gan ei fod wedi gwneud rhywbeth roedd yn gwybod a oedd yn ddrwg ac fe wnaeth gyfaddef gwneud, ar sawl tro.
- Dyletswyddau a Chyfrifoldebau: Drwy fethu â gweithio yn ystod cyfnod lle roedd gweithgarwch mae'n debyg, ni wnaeth weithredu'n ddiwyd wrth gyflawni ei ddyletswyddau.
- Cyfrinachedd: Nid oes tystiolaeth fod cyfrinachedd wedi'i dorri. Felly, rwyf yn dod i'r casgliad na ellir profi'r honiad penodol hwn.
- Ymddygiad Annheilwng: Mae ei ymddygiad islaw'r safon sydd i'w disgwyl gan swyddog heddlu a gall danseilio hyder y cyhoedd.

**Asesu Difrifoldeb**

Wrth asesu difrifoldeb, rwyf wedi ystyried Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref.

Mae gofyn bob amser ar swyddogion heddlu gynnal y safonau ymddygiad uchaf ac ystyried sut fyddai aelodau o'r cyhoedd yn amgyffred eu gweithrediadau. Gall ymddygiad sy'n peryglu tanseilio hyder y cyhoedd, hyd yn oed os nad yw'n hysbys yn gyhoeddus, gyfateb i ymddygiad annheilwng pan ystyried yr holl amgylchiadau.

Yn yr achos hwn, rwyf yn casglu fod y ffactorau canlynol o bwys penodol:

- Roedd yr ymddygiad yn fwriadol ac yn fynych, yn digwydd dros gyfnod hirfaith
- Roedd yn barhaus, hefo rhai enghreifftiau'n parhau sawl awr
- Roedd yn cynnwys cynnal argraff gamarweiniol fod y swyddog wrthi'n gweithio

- Roedd cyfnodau sylweddol lle nad oes tystiolaeth yn cefnogi dyletswyddau, a dim ymgais glir i gael mwy o waith
- Mae'n dangos methiant i fodloni'r disgwyliadau ar swyddogion heddlu weithredu'n uniawn ac yn ddiwyd.

Tra fy mod wedi ystyried cymeriad da blaenorol y Swyddog a'r dystiolaeth gadarnhaol o ran ei foeseg gwaith mewn pethau eraill, rwyf yn dod i'r casgliad nad ydy'r materion hyn yn drech na difrifoldeb yr ymddygiad a brofwyd.

Rwyf yn fodlon y byddai'r ymddygiad, pe bai'n hysbys i aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd, yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth heddlu, yn enwedig o ystyried y disgwyliad fod swyddogion yn gweithredu'n onest ac yn dryloyw.

**Penderfyniad**

Gan ddod â'r materion hyn at ei gilydd, rwyf yn dod i'r casgliad fod ymddygiad PC Masson yn dangos toriad clir a pharhaus o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

Roedd yr ymddygiad yn cynnwys gweithrediadau mynych a bwriadol a oedd yn creu argraff gamarweiniol o gyflawni gwaith. Methwyd â bodloni safonau diwydrwydd angenrheidiol. Peryglwyd systemau'r heddlu'n ddiangen hefyd. Mae'n brin iawn o'r safonau disgwyliedig gan swyddog heddlu.

Yn ôl yr hyn sy'n debygol, rwyf yn dod i'r casgliad fod yr ymddygiad yn cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**12 Mehefin 2026**